COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 225

Amseru: Arferol

Teitl: Arian cyfatebol tuag at y prosiect Strydoedd Mwy Diogel 2

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid / grantiau

Crynodeb Gweithredol:
Mewn partneriaeth â'r Heddlu, Cyngor Tref Llanelli a Chyngor Sir Gaerfyrddin, llwyddodd SCHTh i gael arian o ail rownd cronfa Strydoedd Mwy Diogel y Swyddfa Gartref. Rhoddwyd ychydig dros £87,000 ar gyfer y cyfnod Ebrill 2021 – Mawrth 2022.

Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â throseddau cymdogaeth, gan gynnwys troseddau cerbydau, byrgleriaethau, lladradau a dwyn wrth unigolion o fewn yr ardaloedd a nodwyd, sef Tyisha 2 ac Elli 2. Drwy ymgynghori'n helaeth â phartneriaid allweddol a'r gymuned, cyflwynir yr ymyriadau canlynol er mwyn cynorthwyo o ran mynd i'r afael â'r broblem a nodwyd, sef troseddau meddiangar – cyflogi wardeiniaid cymunedol, prynu pecynnau SelectaDNA a phecynnau cofrestru beiciau, gwelliannau amgylcheddol a cholofnau goleuadau stryd ychwanegol, cyflwyno rhaglen grantiau cymunedol bach a reolir drwy Fwrdd Cymunedau Mwy Diogel Sir Gaerfyrddin, lle y gall grwpiau cymunedol lleol yn yr ardal adeiladau eu capasiti i gyflenwi prosiectau atal trosedd yn y dyfodol a datblygu cymorth ar gyfer y grwpiau yn y dyfodol.

Er mwyn i'r cynnig gael ei dderbyn, cynhwysodd y Swyddfa Gartref ofyniad ar gyfer arian cyfatebol. Argymhellir bod CHTh yn cymeradwyo'r defnydd o £21,834 o'r Gronfa Wrth Gefn Ailhyfforddi Gyrwyr fel bod modd cyflwyno'r prosiect hwn.

Argymhelliad:
Mae CHTh yn cymeradwyo cyfraniad o £21,834 o arian cyfatebol er mwyn cyflwyno Cronfa Strydoedd Mwy Diogel 2 o'r Gronfa Wrth Gefn Ailhyfforddi Gyrwyr.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 16.06.21